***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 Rhif 795 (Cy. 125)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) (Diwygio) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Gorffennaf 2024* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Medi 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 1 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn(**2**).

### Enwi, cymhwyso a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) (Diwygio) 2024.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Medi 2024.

### Diwygio Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006

**2.** Mae Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006(**3**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 a 4 o'r Rheoliadau hyn.

### Diwygio rheoliad 7 (nodi mangreoedd dofednod)

**3.** Yn lle rheoliad 7 (nodi mangreoedd dofednod) rhodder—

(**1**) 1981 p. 22 ("Deddf 1981"). Mae swyddogaethau "the Ministers" o dan Ddeddf 1981 (fel y'u diffinnir yn adran 86(1) o'r Ddeddf honno) yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (o ran Cymru) yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044); ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) Caniateir arfer y pŵer i wneud gorchymyn o dan adran 1 o Ddeddf 1981 er mwyn gwneud rheoliadau yn rhinwedd adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4). Diddymwyd paragraffau 13 i 15 o Atodlen 8 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), a oedd yn gwneud y weithdrefn gadarnhaol, y weithdrefn graffu uwch a datganiadau esboniadol yn ofynnol ar gyfer offerynnau sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth sydd wedi ei gwneud o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), gan adran 10(1) o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (p. 28).

(**3**) O.S. 2006/2803 (Cy. 242), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/619 (Cy. 61), 2011/1043 a 2019/371 (Cy. 92).

**"Hysbysiad ynghylch mangreoedd y cedwir dofednod neu adar caeth eraill ynddynt**

**7.**—(1) Rhaid i berson sy'n cadw dofednod neu adar caeth eraill mewn unrhyw fangre hysbysu Gweinidogion Cymru mewn ysgrifen am yr wybodaeth a ganlyn mewn perthynas â'r fangre—

(a) cyfeiriad a rhif daliad y fangre (os oes rhif arni);

(b) enw a chyfeiriad y person hwnnw ac, os ydynt yn wahanol i rai y person hwnnw, enw a chyfeiriad—

(i) perchennog y dofednod neu'r adar caeth eraill; a

(ii) meddiannydd y fangre;

(c) pob rhywogaeth dofednod neu adar caeth eraill a gedwir yn y fangre;

(d) nifer yr adar o bob rhywogaeth dofednod neu adar caeth eraill a gedwir yn y fangre; ac

(e) at ba ddiben neu ddibenion y cedwir y dofednod neu'r adar caeth eraill.

(2) Rhaid i berson sy'n cadw 50 neu ragor o ddofednod neu adar caeth eraill mewn unrhyw fangre hysbysu Gweinidogion Cymru mewn ysgrifen am yr wybodaeth a ganlyn, yn ychwanegol at y gofynion a nodir ym mharagraff (1)—

(a) mewn perthynas â dofednod—

(i) y system neu'r systemau hwsmona a ddefnyddir yn y fangre; a

(ii) at ba ddiben neu ddibenion y cedwir dofednod, pa un ai i gynhyrchu cig, wyau deor, wyau i'w bwyta neu at unrhyw ddiben arall;

(b) manylion unrhyw amrywiadau stocio tymhorol sy'n debygol o arwain at amrywiad sylweddol yn nifer neu rywogaethau'r dofednod neu'r adar caeth eraill yn y fangre ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 12 mis yn dilyn hysbysiad neu ddiweddariad o dan baragraff (3); ac

(c) manylion nifer a rhywogaethau'r dofednod neu'r adar caeth eraill sydd â mynediad i awyr agored yn y fangre.

(3) Rhaid i hysbysiad a wneir o dan baragraff (1) neu (2)—

(a) cael ei wneud mewn ysgrifen ar 1 Hydref 2024 neu cyn hynny; a

(b) cael ei ddiweddaru ar-lein—

(i) cyn 1 Hydref 2025; a

(ii) ym mhob blwyddyn galendr ddilynol o fewn 12 mis i'r diweddariad a wnaed ddiwethaf o dan y paragraff hwn neu baragraff (5).

(4) Rhaid i berson sydd, ar ôl 1 Medi 2024, yn dod yn geidwad unrhyw ddofednod neu adar caeth eraill mewn unrhyw fangre—

(a) o fewn 30 o ddiwrnodau iddo ddod yn geidwad, hysbysu Gweinidogion Cymru mewn ysgrifen am yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1), a phan fo'n gymwys, yn ogystal, am yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (2); a

(b) diweddaru'r hysbysiad hwnnw ar-lein ym mhob blwyddyn galendr ddilynol, o fewn 12 mis i'r diweddariad a wnaed ddiwethaf o dan y paragraff hwn neu baragraff (5).

(5) Rhaid i berson sydd wedi gwneud hysbysiad o dan y rheoliad hwn ddiweddaru'r hysbysiad o fewn 30 o ddiwrnodau i unrhyw newid o'r mathau a ganlyn—

(a) newid yn unrhyw un neu ragor o'r materion y mae hysbysiad yn eu cylch yn ofynnol o dan baragraff (1)(a), (b), (c), (e), neu (2); a

(b) mewn perthynas â mangre y cedwir 50 neu ragor o ddofednod neu adar caeth eraill ynddi, cynnydd neu leihad o 20% neu ragor yn nifer y dofednod neu'r adar caeth eraill a bennir o dan baragraff (2) oni bai bod y newid hwn o ganlyniad i—

(i) gwagio cytiau dofednod neu ddeorfeydd i'w hailstocio ar unwaith; neu

(ii) stocio tymhorol.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad, ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n hysbysu Gweinidogion Cymru o dan baragraff (1) neu (2) eu hysbysu am wybodaeth sy'n ychwanegol at yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan y paragraff o dan sylw.

(7) Rhaid i berson y mae'n ofynnol iddo hysbysu Gweinidogion Cymru am wybodaeth o dan baragraff (6) wneud hynny o fewn 30 o ddiwrnodau iddo gael hysbysiad gan Weinidogion Cymru.

(8) Yn y rheoliad hwn a rheoliad 7A, ystyr "mynediad i awyr agored" yw—

(a) lletya dofednod neu adar caeth eraill yn barhaol neu dros dro mewn strwythur y tu allan sydd â rhwyll, rhwyd neu gawell drosto yn gyfan gwbl neu'n rhannol, pa un a yw'n sefydlog neu'n symudol, nad yw wedi ei amgáu'n gyfan gwbl o fewn adeilad; neu

(b) symud dofednod neu adar caeth eraill dros dro o'u lletyad er mwyn cael eu hedfan yn rhydd y tu allan."

**Rheoliad newydd 7A (hysbysiad ynghylch mangreoedd y cedwir dofednod neu adar caeth eraill ynddynt: eithriadau)**

**4.** Ar ôl rheoliad 7 (hysbysiad ynghylch mangreoedd y cedwir dofednod neu adar caeth eraill ynddynt) mewnosoder—

"**Hysbysiad ynghylch mangreoedd y cedwir dofednod neu adar caeth eraill ynddynt: eithriadau**

**7A.** Nid yw'r gofyniad i hysbysu Gweinidogion Cymru o dan reoliad 7 yn gymwys i geidwaid adar caeth eraill mewn unrhyw fangre y mae'r unig adar caeth eraill a gedwir ynddi—

(a) yn perthyn i'r urdd Psittaciformes neu Passeriformes; a

(b) yn cael eu lletya yn y fangre yn gyfan gwbl o fewn annedd neu o fewn tŷ adar heb fynediad uniongyrchol i awyr agored."

*Huw Irranca-Davies*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

15 Gorffennaf 2024

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/2803 (Cy. 242)) ("Rheoliadau 2006").

Mae rheoliad 7 o Reoliadau 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i geidwad 50 neu ragor o ddofednod mewn unrhyw fangre unigol hysbysu Gweinidogion Cymru am wybodaeth benodedig sy'n ymwneud â'r dofednod hynny a rhoi gwybod i Weinidogion Cymru am newidiadau penodedig i'r wybodaeth honno.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn disodli rheoliad 7 o Reoliadau 2006 fel ei bod yn ofynnol i geidwaid dofednod ac adar caeth eraill (ni waeth beth fo'u niferoedd) hysbysu Gweinidogion Cymru am wybodaeth benodedig ac fel bod yr wybodaeth honno yn cael ei hadolygu a'i diweddaru yn flynyddol. Rhaid i geidwaid 50 neu ragor o ddofednod neu adar caeth eraill hefyd ddarparu gwybodaeth ychwanegol fel rhan o'r weithdrefn hysbysu.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno rheoliad newydd 7A yn Rheoliadau 2006. Mae'r rhwymedigaeth i hysbysu yn ddarostyngedig i eithriad ar gyfer ceidwaid adar caeth eraill sy'n perthyn i'r urdd Psittaciformes (megis byjerigars neu barotiaid) neu Passeriformes (megis caneris neu bincod), sy'n cael eu lletya yn gyfan gwbl o fewn annedd neu dŷ adar heb fynediad uniongyrchol i awyr agored.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.